**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

4 Mawrth 2025

**Cysylltiadau rhwng y DU ac Affrica**

Annwyl Eluned,

Fel rhan o waith craffu'r Senedd ar gytundebau rhyngwladol, buom yn ystyried gwelliannau i'r Cytundeb Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica yn ein cyfarfod ar 19 Chwefror 2025. O ganlyniad i'n gwaith craffu ar Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a'i chynlluniau gweithredu (gan gynnwys Cymru ac Affrica), cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am yr wybodaeth a ganlyn:

- A yw Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni ei gweithgarwch yng ngwledydd Affrica, a sut.
- Pa ran, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni cysylltiadau Llywodraeth y DU rhwng y DU ac Affrica.
- I ba raddau y mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gysylltiadau ag Affrica yn cyd-fynd.
- Ym mha fforwm rhynglywodraethol y trafodir cysylltiadau rhwng y DU ac Affrica.
- Sut mae'r llywodraethau'n gweithredu o ran cysylltiadau â gwladwriaethau Affrica nad yw eu gwerthoedd efallai'n cyd-fynd â gwerthoedd y DU.
- Pa gymorth, os o gwbl, y mae Llywodraeth y DU wedi'i roi i Lywodraeth Cymru i gyflawni ei chynllun gweithredu o ran Cymru ac Affrica.

Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ein hymchwiliad i Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol agos.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.